# Y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio

## Adroddiad Blynyddol 2024-25

## Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

onestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfra
onestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfra
onestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys


| Eitem | Teitl | | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|---|
| | **Rhagair gan y Cadeirydd** | | **3** |
| 1. | **Cyflwyniad** | | 4 |
| 2. | **Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2024/25** | | 4 |
| 2.1 | Rôl Craffu | | 4 |
| 2.2 | Y Blaengynllun Gwaith | | 6 |
| 2.3 | Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio | | 6 |
| 2.4 | **Monitro Perfformiad / Materion Strategol** | | 6 |
| | 2.4.1 | Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022-23 | 6 |
| | 2.4.2 | 2024/25 - Adroddiadau Perfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor | 7 |
| | 2.4.3 | Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau | 7 |
| 2.5 | **Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf** | | 7 |
| | 2.5.1 | Adroddiadau Monitro Cyllideb | 7 |
| | 2.5.2 | Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 tan 2027/28 | 8 |
| 2.6 | **Yr Adran Cymunedau** | | 8 |
| | 2.6.1 | Adroddiad Diweddaru - Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys ynghylch rhoi'r polisi dyrannu newydd ar waith | 8 |
| | 2.6.2 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio ar gyfer 2023/24 | 8 |
| | 2.6.3 | Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio - Polisi Addasiadau | 9 |
| | 2.6.4 | Canlyniadau Ymarfer Ymgynghori ynghylch Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin | 9 |
| | 2.6.5 | Diweddariad ynghylch Perfformiad a Gwelliannau o ran Eiddo Gwag | 10 |
| | 2.6.6 | Cynnig Addysg Awyr Agored Amgen - Diweddariad | 10 |
| | 2.6.7 | Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Newydd | 10 |
| | 2.6.8 | Opsiynau Perchentyaeth Cost Isel ar gyfer Sir Gaerfyrddin | 11 |
| | 2.6.9 | Adroddiad Diweddaru - Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys ynghylch Rhoi'r Polisi Dyrannu Newydd Ar Waith (Monitro) | 11 |
| | 2.6.10 | Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai 2025/26 | 12 |
| | 2.6.11 | Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2025-28 - Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin | 12 |
| | 2.6.12 | Adroddiad Monitro Dyraniadau Tai Cymdeithasol | 12 |
| 2.7 | **Adran y Prif Weithredwr** | | 13 |
| | 2.7.1 | Defnyddiau Canol Tref Amgen | 13 |
| | 2.7.2 | Prosiectau Datblygu Mawr - Adfywio | 13 |
| 2.8 | **Yr Adran Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd** | | 13 |
| | 2.8.1 | Menter y Deg Tref – diweddariad cynnydd | 13 |
| 3 | Gweithgarwch Craffu Arall | | 14 |
| | 3.1 | Gorchwyl a Gorffen | 14 |
| | 3.2 | Ymweliadau Safle | 14 |
| | 3.3 | Sesiynau Datblygu | 14 |
| 4. | Effaith | | 15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 4.1 | Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni? | 15 |
| 5. | Ymgysylltu â'r Cyhoedd | | 15 |
| 6. | Heriau | | 16 |
| 7. | Gwaith yn y Dyfodol | | 16 |
| 8. | Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu | | 16 |
| 9. | Presenoldeb | | 17 |

# Rhagair gan y Cadeirydd



Y Cynghorydd Rob Evans
Cadeirydd – 2024/25

Fel Cadeiryddion y Pwyllgor hwn ar gyfer blwyddyn y cyngor 2024/25, rwy'n falch o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb cynhwysfawr o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn ac yn rhoi cyfle i fyfyrio ar y gwaith hwnnw.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod heriol i'r Cyngor unwaith eto, a theimlaf fod y Pwyllgor hwn wedi parhau i chwarae ei ran yn adeiladol o ran craffu ar berfformiad a chyfrannu at bolisïau a phenderfyniadau allweddol y cyngor.

Mae'n siŵr y bydd y flwyddyn sydd i ddod yn heriol eto, ond rwy'n hyderus y bydd y Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar sut i wella gwasanaethau'n effeithiol ac yn effeithlon ac yn cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau i breswylwyr Sir Gaerfyrddin. Rwy'n sicr y bydd y Pwyllgor hefyd yn parhau i weithio'n agos gydag Uwch-reolwyr a Staff y Cyngor i sicrhau y bydd 2025/26 yn flwyddyn gynhyrchiol.

Hoffwn hefyd ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniadau a'u hymroddiad yn ystod 2024/25.

**Y Cynghorydd Rob Evans**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio 2024/2025**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth Graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner ar draws y sir.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu *"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol"*.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25. Ei nod yw rhoi cyfle i aelodau fwrw golwg ar ei gyflawniadau, nodi meysydd arferion gorau a thynnu sylw at feysydd i'w gwella er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu ymhellach. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn hwyluso trafodaeth ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Rob Evans ac mae'n cynnwys 13 o Aelodau Etholedig. Mae Aelodau Cabinet yn mynychu cyfarfodydd fel sy'n ofynnol i annerch y Pwyllgor ar feysydd yn eu portffolios priodol.

Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor, pan fo angen.

## 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2024/245

### 2.1 Rôl Craffu

Diweddarwyd meysydd gorchwyl y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022 a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt. Mae'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yn gyfrifol am graffu ar y tri phortffolio Cabinet a meysydd gwasanaeth canlynol:

**Cartrefi**

| | |
|---|---|
| Polisi Tai | Digartrefedd |
| Tai'r Sector Preifat | Cynnal a Chadw Tai ac Atgyweiriadau |
| Addasiadau Tai | Tai Fforddiadwy a Dewisiadau Tai |
| Cymorth Tenantiaethau (Grant Cymorth Tai) | |

**Materion Gwledig a Pholisi Cynllunio**

| | |
|---|---|
| Materion Gwledig ac Ymgysylltu Cymunedol | Adfywio Gwledig |
| Marchnadoedd, Martiau a Rhandiroedd | Gorfodi Rheolau Cynllunio |
| Cynllun Datblygu Lleol | Gwasanaethau Cynllunio (Yr Adran Gynllunio) |
| Mynediad at Wasanaethau Gwledig | Menter y Deg Tref |
| Cydraddoldebau - Cymuned | |

**Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth**

| | |
|---|---|
| Canolfannau Hamdden | Amgueddfeydd |
| Llyfrgelloedd | Parciau Gwledig |
| Twristiaeth | Datblygu Economaidd |
| Cynllun Adfer Economaidd | Strategaeth Adfywio |
| Gwasanaethau Adeiladu a Rheoli Ystadau (ac eithrio'r stoc dai) | |

Yn unol â'i feysydd cyfrifoldeb, bydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yn ceisio:

- Archwilio pa mor dda y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn perfformio,
- Dwyn y Cabinet i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy'n agored ac yn dryloyw,
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor,
- Adolygu penderfyniadau'r Cabinet lle bo hynny'n briodol,
- Cynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisïau,
- Craffu ar y strategaeth cyllideb refeniw a'r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori,
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at y gwaith o ystyried materion a all effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cyngor a'r sir gyfan.

## 2.2 Y Blaengynllun Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu gymryd mwy o berchnogaeth o'u Blaengynlluniau Gwaith eu hunain, cyflwynwyd dull craffu cyn gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2022 sy'n caniatáu i Bwyllgorau Craffu benderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am eu gweld yn dod ger eu bron. Yn ôl y drefn arferol, mae Pwyllgorau hefyd yn gallu nodi eu pynciau eu hunain ac mae'r Cabinet yn dal i allu gwahodd Pwyllgor Craffu i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Defnyddiodd y Pwyllgor fframwaith Gateway y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu i ddatblygu ei Flaengynllun Gwaith ar gyfer blwyddyn y cyngor 2024/25 a adolygwyd yn rheolaidd. Roedd hyn yn darparu dull hawdd ei reoli, hyblyg a chadarn o graffu ac yn sicrhau bod y meysydd i'w hadolygu yn cael eu hystyried ar sail blaenoriaeth ac mewn modd amserol.

Yn hyn o beth, penderfynodd y Pwyllgor y gellid dosbarthu rhai adroddiadau cyfnodol ynghylch perfformiad a monitro'r gyllideb i aelodau y tu allan i'r rhaglen cyfarfodydd ffurfiol. Roedd y broses hon yn golygu bod modd gosod unrhyw faterion perthnasol a nodwyd gan aelodau ar yr agenda ffurfiol i'w hystyried ymhellach, fel y bo'n briodol. Arweiniodd manteision y dull hwn o weithio at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Blaengynllun Gwaith.

## 2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio

Trefnir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos i ystyried materion ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Blaengynllun Gwaith. Cynhaliodd y Pwyllgor 8 cyfarfod ffurfiol yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25 a chynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â'r darpariaethau a nodir yn Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, Ymchwiliadau Craffu Un Diwrnod ac Ymweliadau Safle â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith ynghyd â sesiynau datblygu a gweithdai.

## 2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Un o brif rolau'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yw monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau o fewn ei gylch gwaith. Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau monitro perfformiad a gwahanol strategaethau a chynlluniau i roi asesiad cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

### 2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2023/24

Ym mis Tachwedd 2024 cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2023/24 a gynhyrchwyd yn unol â'r darpariaethau perthnasol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd a wnaed gyda 4 Amcan Llesiant y Cyngor, fel y cytunwyd yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar

gyfer 2022-27. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar y ddau Amcan Llesiant sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgorau, sef:

| | |
|---|---|
| **Amcan Llesiant 2:** | Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda) |
| **Amcan Llesiant 3:** | Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus) |

**Canlyniad:** Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr Adroddiad Blynyddol

### 2.4.2 Adroddiadau Perfformiad 2024/25 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, cafodd adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor eu hystyried gan y pwyllgor fel a ganlyn:

- Gorffennaf 2024 – Monitro Perfformiad Chwarter 4 2023/24
- Hydref 2024 – Monitro Perfformiad Chwarter 1 2024/25
- Ionawr 2025 – Monitro Perfformiad Chwarter 2 2024/25
- Ebrill 2025 – Monitro Perfformiad Chwarter 3 2024/25

Roedd yr adroddiadau yn galluogi aelodau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor ac sy'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod. Roedd y wybodaeth yn rhoi hunanwerthusiad o berfformiad yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol diwygiedig sydd wedi'i ymgorffori yn Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

### 2.4.3 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau

Yn ystod blwyddyn y cyngor gwnaed ceisiadau am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl graffu. Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y Camau Gweithredu a'r Atgyfeiriadau i'r Pwyllgor yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2024 ac Ebrill 2025 a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

## 2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

### 2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, cafodd adroddiadau chwarterol ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol eu hystyried mewn cyfarfod ffurfiol neu eu dosbarthu i aelodau fel a ganlyn:

- Mai 2024 - mewn perthynas â’r sefyllfa gyllidebol ar 29 Chwefror 2024
- Hydref 2024 - mewn perthynas â’r sefyllfa gyllidebol ar 30 Mehefin 2024
- Tachwedd 2024 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2024
- Ionawr 2025 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Hydref 2024
- Ebrill 2025 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Rhagfyr 2024

Roedd yr adroddiadau yn galluogi'r aelodau i fonitro gwariant ym mhob maes gwasanaeth a’r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

### 2.5.2 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 tan 2027/28

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf presennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 i 2027/28 yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2025. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2025/26 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2026/2027 a 2027/28.

**Canlyniad:**

Fel rhan o ymgynghoriad eang yr Awdurdod a gynhaliwyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26, roedd y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo'r Strategaeth yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2025. Wedi hynny, cytunodd y Cabinet ar y Strategaeth ar 17 Chwefror a mabwysiadodd y Cyngor y Strategaeth ar 26 Chwefror

## 2.6 YR ADRAN CYMUNEDAU

### 2.6.1 Adroddiad Diweddaru - Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys ynghylch rhoi'r polisi dyrannu newydd ar waith

Ym mis Mai 2024, cafodd y Pwyllgor adroddiad monitro ar effeithiolrwydd y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys a luniwyd gan ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Fel rhan o'r broses fonitro, gofynnodd y pwyllgor am y rheswm dros y cynnydd yn nifer yr achosion o baru anaddas o ran eiddo rhwng Chwarter 3 a Chwarter 4 2023-24, gan nodi ei fod yn ymwneud yn bennaf ag eiddo a gynigir i bobl ym Mand B, a oedd â'r hawl i wrthod hyd at ddau gynnig rhesymol o eiddo. Nodwyd bod yr agwedd hon ar y polisi yn cael ei hadolygu fel rhan o ddatblygiad y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Newydd ac y byddai'n cael ei chynnwys yn y polisi i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

**Canlyniad:**
Derbyniwyd yr adroddiad monitro.

### 2.6.2 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio ar gyfer 2023/24

Ym mis Mai 2024 derbyniodd y Pwyllgor ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/24 a gynhyrchwyd yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor gan ddarparu trosolwg o'i raglen waith ar gyfer 2023/24 a'r materion allweddol dan sylw, gan gynnwys hefyd unrhyw faterion y cyfeirir atynt, neu gan y Cabinet, Adolygiadau Gorchwyl a Gorffen a sesiynau datblygu.

**Canlyniad:**

Derbyniwyd yr adroddiad blynyddol.

### 2.6.3 Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio - Polisi Addasiadau

Ym mis Mai 2024 rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i archwilio gweithrediad Gwasanaeth Addasiadau'r Cyngor o fewn Is-adran Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol yr Adran Cymunedau mewn perthynas â'r ôl-groniad presennol o waith a'r prosesau, gyda'r bwriad o wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd a deiliaid contractau (tenantiaid).

Roedd yr adroddiad yn manylu ar waith y Grŵp gan gynnwys llunio Polisi Addasiadau i'r Cartref diwygiedig, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad fel Atodiad 1, ynghyd ag argymhellion i'r Pwyllgor eu hystyried a fyddai, pe byddent yn cael eu mabwysiadu, yn cael eu hanfon ymlaen at Gabinet y Cyngor i'w hystyried.

**Canlyniad:**

Argymhellodd y Pwyllgor i'r Cabinet ei fod yn ystyried ailgyflwyno profion modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar raddfa ganolig a bod y Polisi Addasiadau Drafft diwygiedig sy'n cynnwys diwygiadau awgrymedig y Grŵp ar gyfer newid yn cael ei fabwysiadu yn amodol ar i'r Cabinet ystyried argymhelliad 1 uchod. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd Amodau Ad-dalu Grant ar yr holl Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl dros £5,000 os yw'r eiddo'n cael ei werthu o fewn 10 mlynedd ar ôl cwblhau'r addasiad (gyda rhai eithriadau penodol), bod addasiadau ar gyfer plant maeth a leolir yn Sir Gaerfyrddin gan Awdurdod Lleol arall yn cael eu hystyried dim ond os bodlonir y meini prawf yn y polisi, a bod staffio yn cael ei adolygu i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ateb y galw uchel parhaus am y gwasanaeth.

### 2.6.4 Canlyniadau Ymarfer Ymgynghori ynghylch Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin

Ym mis Gorffennaf 2024 rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad yn manylu ar ganfyddiadau ymarfer ymgynghori deuddeg wythnos ar ddatblygu Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, i ddisodli'r Polisi Dyrannu Brys presennol a ddatblygwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor yn 2023.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau ynglŷn â chymhwyso polisïau cysylltiadau lleol mewn ardaloedd gwledig, cwmpas yr ymgynghoriad a sut byddai'n cael ei hyrwyddo, a pholisïau ar bobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo yn byw mewn tai cymdeithasol.

Nododd y Pwyllgor, yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori, y byddai gwaith yn cael ei wneud ar y fersiwn ddrafft o'r Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Newydd, a fyddai'n cael ei chyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref, i'w hystyried cyn ei chyflwyno wedyn drwy'r broses wleidyddol i'r Cabinet a'r Cyngor i'w chymeradwyo.

**Canlyniad:**
Derbyniwyd yr adroddiad

### 2.6.5 Diweddariad ynghylch Perfformiad a Gwelliannau o ran Eiddo Gwag

Ym mis Gorffennaf 2024 cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru ar y cynnydd oedd wedi'i wneud ar welliannau i wasanaeth eiddo gwag y Cyngor, a nodai'r gwelliannau hyd yn hyn yn ogystal â gwelliannau oedd yn yr arfaeth.

Cyfeiriodd yr aelodau at y gostyngiad mewn eiddo gwag dros y ddwy flynedd ddiwethaf o 431 i 178, a gynrychiolai 1.85% o gyfanswm stoc dai y Cyngor o ryw 9,350. Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am eu holl waith caled i gyflawni'r gostyngiad hwnnw, gan gynnwys creu tîm mewnol ar gyfer atgyweiriadau mewn eiddo gwag, a oedd wedi golygu bod 250 o eiddo ychwanegol ar gael i'w gosod ynghyd â chynnydd mewn incwm o bron i £1m y flwyddyn.

**Canlyniad:**
Derbyniwyd yr adroddiad diweddaru

### 2.6.6 Cynnig Addysg Awyr Agored Amgen - Diweddariad

Ym mis Gorffennaf 2024 cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer parhau i ddarparu ei Wasanaeth Addysg Awyr Agored yn dilyn y bwriad i gau'r cyfleuster presennol ym Mhentywyn ar ddiwedd tymor 2025, a'i symud i fodel darparu amgen ym Mharc Gwledig Pen-bre. Byddai'r cynigion yn caniatáu ar gyfer twf a datblygiad organig a gweithredu cyfleusterau addysg cynaliadwy trwy gydol y tymhorau ysgol, ac yn dyblu'r llety gellid ei ddefnyddio yn ystod cyfnodau gwyliau.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau neu mynegodd bryderon ynglŷn â darparu llety ym Mharc Gwledig Pen-bre, defnyddio cyfleusterau mewn lleoliadau eraill, potensial llynnoedd Delta fel lleoliad awyr agored, ymgysylltu â phlant ynghylch darpariaeth yn y dyfodol, cyfleusterau dan do i'w defnyddio yn ystod tywydd garw, a darpariaeth hyfforddi.

**Canlyniad:**
Derbyniwyd yr adroddiad diweddaru

### 2.6.7 - Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Newydd

Ym mis Hydref 2024, cyflwynwyd y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol newydd arfaethedig i'r Pwyllgor ar gyfer ei sylwadau, cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet, gyda'r prif newidiadau a nodir isod.

- Bydd angen i ymgeiswyr ailgofrestru bob 6 mis yn hytrach na 12 mis, er mwyn sicrhau bod y gofrestr yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddaru,
- Bydd Paru Uniongyrchol bellach yn cael ei wneud i bob band yn y Polisi ac nid yn gyfyngedig i Fandiau A a B
- Gwnaed gwelliannau i enwau pob un o'r bandiau blaenoriaeth er mwyn sicrhau cysondeb â'r ddeddfwriaeth tai,
- Mae'r meini prawf paru wedi'u nodi'n glir mewn trefn o ran sut y caiff ymgeiswyr eu blaenoriaethu
- Diwygiwyd Ardaloedd Cysylltiad Cymunedol i sicrhau eu bod yn gwneud synnwyr daearyddol o ran dyraniadau,
- Argymhellir rhoi pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth Tai i alluogi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig newydd i ymuno â'r gofrestr tai, ac,
- Mae meini prawf dyraniad y Gofrestr Tai Hygyrch wedi'u cynnwys fel Atodiad i'r Polisi Dyraniadau ehangach.

**Canlyniad:**
Cafodd y Pwyllgor y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin

### 2.6.8 Opsiynau Perchentyaeth Cost Isel ar gyfer Sir Gaerfyrddin

Ym mis Hydref 2024, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar gynyddu'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer Perchentyaeth Cost Isel yn Sir Gaerfyrddin a oedd yn manylu ar yr opsiynau presennol, opsiynau ychwanegol posibl i'w hystyried, ac argymhellion ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy i breswylwyr.

Nodwyd, er mwyn sicrhau bod y bobl gywir yn cael mynediad at Berchentyaeth Cost Isel, y byddai angen i'r cyngor gymhwyso meini prawf cymhwysedd llym a oedd yn cynnwys:

- Ymgeiswyr yn gallu sicrhau morgais a gallu fforddio'r ad-daliadau a'r costau sy'n gysylltiedig â phrynu cartref,
- Pobl gymwys yn gallu dangos cysylltiad lleol cryf â'r ardal lle’r oeddent yn ceisio prynu cartref

Pe bai'n cael ei fabwysiadu, byddai'r polisi yn helpu pobl leol i aros yn eu cymunedau, a thrwy hynny helpu i ddiogelu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru a sicrhau bod y cynnyrch Cartrefi Cost Isel ar gael dim ond i'r rhai oedd eu hangen.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau am isafswm ac uchafswm y bandiau trothwy incwm tai ar gyfer pob un o'r pedair Ardal Gweithredu Tai Fforddiadwy y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, am yr awdurdod yn ystyried cyllido cynnyrch Opsiynau Perchentyaeth Cost Isel yn uniongyrchol drwy'r Cyfrif Refeniw Tai ar safleoedd adeiladu newydd penodol, ac am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau 'rhentu i berchnogi'.

**Canlyniad:**
Cymeradwywyd yr adroddiad ynghylch Opsiynau Perchentyaeth Cost Isel ar gyfer Sir Gaerfyrddin

### 2.6.9 Adroddiad Diweddaru - Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys ynghylch Rhoi'r Polisi Dyrannu Newydd Ar Waith (Monitro)

Ym mis Tachwedd cafodd y Pwyllgor adroddiad monitro ar effeithiolrwydd y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys newydd a luniwyd gan ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Gofynnodd y Pwyllgor am y 131 o achosion o baru anaddas a wnaed yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Medi 2024.

**Canlyniad:**
Derbyniwyd yr adroddiad monitro.

### 2.6.10 Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai 2025/26

Ym mis Ionawr 2025 ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar Gyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2025/2026 a gyflwynir fel rhan o broses ymgynghori'r gyllideb a ddygai ynghyd y cynigion diweddaraf ar gyfer y cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor er mwyn iddynt benderfynu yn eu cylch.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau neu mynegodd bryderon ynglŷn ag ymgysylltu â thenantiaid ac ymdrechion i fanteisio i'r eithaf ar incwm, colli incwm blaenorol gan Dŵr Cymru ar gyfer casglu trethi dŵr, technolegau arbed ynni newydd, a'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr gan Lywodraeth Cymru.

**Canlyniad:**
Argymhellwyd i'r Cabinet/Cygor fod y cynigion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo

### 2.6.11 Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2025-28 - Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin

Ym mis Ionawr 2025, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar Gynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2025-2028 - Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin, gan nodi'r pedair thema allweddol ganlynol fel rhai sy'n gyrru'r busnes am y tair blynedd nesaf:

- Thema 1 – Gwrando ar denantiaid a'n dull o reoli ystadau a thenantiaethau.
- Thema 2 – Buddsoddi mewn cartrefi
- Thema 3 - Darparu rhagor o dai
- Thema 4 - Yr economi leol, budd i'r gymuned a chaffael

Cefnogwyd y pedair thema hynny gan sawl cam gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad. Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau neu mynegodd bryderon ynglŷn â gwelliannau effeithlonrwydd ynni, eiddo gwag, gwahanol fathau o systemau gwresogi yn y stoc dai, cefnogi tenantiaid i fyw'n annibynnol, y fenter ymgysylltu 'Cyfeillion Beirniadol', Cynlluniau Tai â Chymorth i bobl ifanc, atgyweiriadau ymatebol, a grantiau Llywodraeth Cymru.

**Canlyniad:**
Argymhellwyd i'r Cabinet/Cygor fod y cynigion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.

### 2.6.12 Adroddiad Monitro Dyraniadau Tai Cymdeithasol

Ym mis Ebrill 2025 cafodd y Pwyllgor adroddiad monitro ynghylch effaith rhoi'r Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys ar waith. Hefyd dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai hyn yn gweithredu fel asesiad terfynol o'r Polisi Brys, yng ngoleuni'r Polisi Dyrannu newydd a gychwynnodd ar 2 Mawrth 2025.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiwn am achosion o baru anaddas oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofynnodd am i adroddiad gael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf i roi trosolwg o'r Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol newydd.

**Canlyniad:**
Penderfynodd y Pwyllgor, ar ôl ystyried y data yn yr adroddiad monitro, dderbyn y diweddariad.

## 2.7 Adran y Prif Weithredwr

#### 2.7.1 Defnyddiau Canol Tref Amgen

Ym mis Mai 2024 cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru ar gynigion Adfywio Canol Tref sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd ar gyfer defnyddiau canol tref amgen posibl yng nghanol trefi Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli.

**Canlyniad:**
Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad yn unfrydol

#### 2.7.2 Prosiectau Datblygu Mawr - Adfywio

Ym mis Mai 2024 cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru ar Brosiectau Datblygu Mawr - Adfywio sy'n cael eu cynnal yn Sir Gaerfyrddin.

**Canlyniad:**
Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad yn unfrydol

### 2.8 Yr Adran Lle a Seilwaith a Datblygu Economaidd

#### 2.8.1 Menter y Deg Tref – diweddariad cynnydd

Ym mis Hydref 2024, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad cynnydd a oedd yn rhoi diweddariad cynhwysfawr ar Fenter y Deg Tref. Nod y fenter oedd cefnogi twf economaidd yn y deg tref farchnad wledig a nodwyd yn yr adroddiad. Amlinellodd yr adroddiad y cymorth a sicrhawyd i ddatblygu mentrau amrywiol ar lefel leol, gan bwysleisio'r ymdrechion cydweithredol rhwng rhanddeiliaid a hefyd tynnu sylw at ddatblygu cynlluniau twf economaidd wedi'u teilwra ar gyfer pob un o'r trefi gan ganolbwyntio ar wella seilwaith lleol, hybu twristiaeth a chefnogi busnesau lleol.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau neu mynegodd bryderon ynghylch y risg na fydd prosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu cwblhau erbyn i'r gronfa gau, unrhyw gynllun arall i olynu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac ymgysylltu cymunedol fel rhan o raglen y Deg Tref.

**Canlyniad:**
Derbyniwyd yr adroddiad cynnydd.

## 3 Gweithgarwch Craffu Arall

### 3.1 Gorchwyl a Gorffen

Ni chynhaliodd y Pwyllgor adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn 2024-25.

## 3.2 Ymweliadau Safle

Ymwelodd y Pwyllgor â Pharc Gelli Werdd Cross Hands ar 11 Tachwedd 2024 i ymgyfarwyddo â datblygiad yr awdurdod yno.

**Canlyniad:**

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth uniongyrchol am faes o fewn ei gylch gwaith a fyddai'n fanteisiol mewn unrhyw drafodaethau/adroddiadau ar y meysydd hynny yn y dyfodol.

## 3.3 Sesiynau Datblygu

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i'r sesiynau/seminarau datblygu canlynol a drefnwyd gan yr Awdurdod:

- 22 Mai 2024 - Cyflwyniad i Waith Crwner Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin
- 14 Mehefin 2024 - System Rheoli Dysgu - Thinqi [‘Think-e’]
- 10 Gorffennaf 2024 - Gosod Arwyneb Newydd ar Briffyrdd a Chynnal a Chadw Priffyrdd
- 25 Gorffennaf 2024 - Cytundebau Adran 106
- 11 Medi 2024 - Sesiwn galw heibio - Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd
- 26 Medi 2024 - Diogelu Corfforaethol
- 9 Hydref 2024 - Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bentre Awel
- 21 Hydref 2024 - Trafnidiaeth Cymru - Cyfarfod Briffio Masnachfreinio Bysiau - Blaenoriaethau Allweddol
- 24 Hydref 2024 - Seminar Ddigidol
- 30 Hydref 2024 - Sesiwn hyfforddi Ymwybyddiaeth Ffrindiau Dementia
- 20 Tachwedd 2024 - Paratoi ar gyfer y Gaeaf
- 10 Rhagfyr 2024 - Rôl a Phrif Ddyletswyddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- 11 Rhagfyr 2024 - Prif Swyddog Tân - Diweddariad Blynyddol
- 29 Ionawr 2025 - Rheoli Maetholion - Heriau a Chanllawiau Cenedlaethol
- 5 Chwefror 2025 - Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
- 12 Chwefror 2025 - Swyddogion Etholedig - Sesiwn Briffio ynghylch Diogelwch Personol
- 12 Chwefror 2025 -Hyfforddiant Datblygiad Un Blaned ar gyfer Cynghorwyr Sir, Tref a Chymuned
- 18 Chwefror a 24 Chwefror 2025 - Gweithdy Hunanasesu'r Swyddogaeth Graffu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- 7 Mai 2025 - Hyfforddiant Gloywi ynghylch y Côd Ymddygiad

# 4. Effaith

## 4.1 Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?

Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o Gynghorwyr eraill nad ydynt yn rhan o'r Cabinet ddylanwadu ar y

penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol". Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn arbennig o ddylanwadol yn hyn o beth gan ei fod yn rhoi cyfle i Bwyllgorau Craffu ystyried a rhoi sylwadau ar bolisïau a materion sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet. Hefyd mae Craffu yn helpu i sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol.

Mae Craffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau a ddefnyddir gan bobl a phlant Sir Gaerfyrddin. Hefyd mae'r broses graffu yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol. Mae cyfraniad preswylwyr lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o'r broses graffu ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwymo i ymateb i sylwadau a phryderon preswylwyr.

Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn rhoi cyfle i bob Pwyllgor Craffu roi mewnbwn cyn i'r adroddiadau gael eu hystyried gan y Cabinet a dyma lais y bobl. Yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25, mae Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio wedi cael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Datblygu Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys
- Datblygu'r Strategaeth Hamdden a Hamdden Awyr Agored
- Trwy ymgymryd â'i rôl porthgadw wrth fonitro gwaith y Cabinet

## 5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r swyddogaeth graffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Awdurdod lle gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitemau gael eu gosod ar agenda cyfarfod y Pwyllgor. Mae'r rhai sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n berchen ar fusnes neu'n cael eu cyflogi yn y sir, hefyd yn cael gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan y cyhoedd yn ystod 2025/26, roedd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor yn cynnwys ystod o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori/cyfranogi cyhoeddus.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaengynlluniau Gwaith Pwyllgorau Craffu yr Awdurdod, a manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, ar wefan yr Awdurdod:

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/pwyllgorau-a-chyfarfodydd/craffu/

Yn ystod blwyddyn y cyngor, rhoddodd is-adran Gyfathrebu yr Awdurdod gymorth marchnata digidol i'r swyddogaeth Graffu gan fynd ati i hyrwyddo manylion eitemau ar gyfer y dyfodol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd mewn ymgais i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Gwahoddir y cyhoedd, drwy nifer o wahanol ffyrdd, i gymryd rhan yn y broses Graffu ac i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder.

## 6. Heriau

Parhaodd yr Adrannau sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgorau Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio (Cymunedau, Prif Weithredwyr a Lle, Cynaliadwyedd a Datblygu Economaidd) i fod dan bwysau drwy gydol blwyddyn y cyngor o ganlyniad i bwysau cyllidebol. Serch hynny, mae'r adrannau wedi addasu a datblygu atebion arloesol yn ystod amgylchiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen i barhau i ddarparu gwasanaethau i breswylwyr Sir Gaerfyrddin. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fod yn adeiladol yn ei rôl o ran craffu ar berfformiad, sydd wedi hwyluso'r adrannau ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol at bolisïau a phenderfyniadau. Mae wedi bod yn fater o gydbwysedd i'r Pwyllgor, rhwng cyflawni ei ddyletswyddau craffu a pheidio ag effeithio ar ariannu gwasanaethau rheng flaen.

## 7. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod blwyddyn y cyngor a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i barhau i weithredu egwyddorion y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu er mwyn cael proses graffu syml a phenodol.

Cafodd gwaith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26 ei ystyried mewn Sesiwn Blaengynllun Gwaith ar 15 Ebrill 2025 a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel rhan o fonitro'r Blaengynllun Gwaith yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn gwella swyddogaeth graffu'r Awdurdod, bydd aelodau'n parhau i fynd i sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor y swyddogion lle y bo'n briodol ac yn manteisio'n llawn ar drafodaeth anffurfiol cyn cyfarfodydd.

## 8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae’r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a’r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr. Mae’r cymorth a roddir i’r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- llunio ac anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn unol â'r Blaengynlluniau Gwaith.
- darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu.
- rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cyngor a'i swyddogion.
- rheoli datblygiad strategol Craffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet.
- rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi.
- rheoli cydlyniad a datblygiad Blaengynlluniau Gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

- rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd.
- cynorthwyo â Rhaglen Datblygu Aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am Graffu yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys Blaengynlluniau Gwaith, adroddiadau Gorchwyl a Gorffen ac Adroddiadau Blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu.

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu e-bostiwch craffu@sirgar.gov.uk.

## 9. Presenoldeb

Dangosir presenoldeb aelodau o'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25 yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o saith cyfarfod yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25.

| Aelod y Pwyllgor Craffu | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd A. Davies | 7 | 100 |
| Y Cynghorydd B. Davies | 7 | 100 |
| Y Cynghorydd H. Davies | 6 | 86 |
| Y Cynghorydd T. Davies | 7 | 100 |
| Y Cynghorydd R. Evans | 6 | 86 |
| Y Cynghorydd K. Howell | 7 | 100 |
| Y Cynghorydd B. Jones | 6 | 86 |
| Y Cynghorydd D. Owen | 5 | 71 |
| Y Cynghorydd M. Palfreman | 6 | 86 |
| Y Cynghorydd S. Rees | 4 | 57 |
| Y Cynghorydd H. Shepardson | 4 | 57 |
| Y Cynghorydd R. Sparks | 7 | 100 |
| Y Cynghorydd M. Thomas | 5 | 71 |
| **Dirprwyon** | **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd** | |
| Y Cynghorydd A. Leyshon | 2 | |
| Y Cynghorydd K. Broom | 1 | |
| Y Cynghorydd D. Cundy | 2 (1 fel cyn-gadeirydd) | |
| Y Cynghorydd S. Allen | 1 | |

| Aelod Cabinet | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Y Cynghorydd L.D. Evans | 6 |
| Y Cynghorydd A. C. Evans | 4 |
| Y Cynghorydd A. Lenny | 5 |
| Y Cynghorydd H.A.L. Evans | 6 |